# ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD

# CAIS AM ORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU (dco) COEDWIG CLOCAENOG

## Bwriad i godi 32 o dyrbinau gwynt 145 metr o uchder

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Adroddiad yw hwn am gais a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio gan RWE Npower Renewables Limited ar gyfer 'Gorchymyn Caniatâd Datblygu' i godi 32 o dyrbinau gwynt 145 metr o uchder yng Nghoedwig Clocaenog.

1.2 Er mwyn cwblhau gwaith erbyn y terfynau amser perthnasol ar gyfer y camau yn y broses archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, mae'r adroddiad yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn ag egwyddor y datblygiad ac ar effeithiau penodol yn sgil yr ymateb i'r ymgynghoriad. Hefyd mae'n gofyn i Aelodau awdurdodi Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a /neu'r Rheolwr Rheoli Datblygu i gwblhau adroddiadau perthnasol a chyflwyno sylwadau ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn unol ag amserlen yr Arolygiaeth Gynllunio.

1.3 Mae angen gofyn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad gan fod amserlen dynn ar gyfer archwilio'r cais ac mae'r amser sydd gan y Cyngor i gyflwyno sylwadau arno'n gyfyngedig.

## 2. CEFNDIR

2.1 Hwn yw'r datblygiad ynni gwynt mwyaf ar y tir yn ardaloedd Siroedd Conwy a Dinbych a'r cyntaf i gael ei ystyried o dan weithdrefnau Prosiect Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIP).

2.2 Mae'r Cynghorau'n 'awdurdodau lleol perthnasol' ac yn 'ymgynghorai statudol' ar y cais. Archwilir y cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac yna bydd yn argymell i'r Gweinidog Ynni a Newid Hinsawdd a yw'r datblygiad yn dderbyniol ai peidio. Yna bydd y Gweinidog yn penderfynu cymeradwyo neu wrthod y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

2.3 Efallai y bydd Aelodau'n cofio bod y ceisiadau ffermydd gwynt wedi eu datblygu dros gyfnod o tua phedair blynedd a bod gwahanol agweddau o'r broses wedi eu hadrodd yn flaenorol i'r Pwyllgor:

- Ymgynghoriad ar Ddatganiad Ymgynghoriad Cymunedol Drafft - Mawrth 2010.
- Ymgynghoriad ar Ddatganiad Ymgynghoriad Amgylcheddol Drafft (Adran 42 o Ddeddf 2008) - Medi 2011.
- Digonolrwydd yr Ymgynghoriad - Mawrth 2013.

Derbyniwyd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym Mai i'w archwilio.

2.4 O ystyried graddfa a natur draws-ffiniol y datblygiad arfaethedig, mae Swyddogion o Gonwy a Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio ar y cyd ac wedi llunio Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda'r Datblygwr. Mae'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio'n caniatáu i'r Cynghorau adfer costau am eu rhan yn y broses.

2.5 Ar hyn o bryd mae'r cais yn y "cam cyn-archwilio". Mae Sir Ddinbych wedi cofrestru gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i gymryd rhan weithgar yn y broses archwilio.

2.6 Mae pedair agwedd bwysig i'r broses archwilio y bydd angen i'r Cyngor gymryd rhan ynddynt, sef:

- Llunio Adroddiad Effaith Lleol (LIR).
- Helpu'r ymgeisydd i baratoi a chyflwyno Datganiad Tir Cyffredin (SOCG).
- Penderfynu a yw'r Cyngor yn dymuno gwrthwynebu neu gefnogi'r cais.
- Paratoi datganiadau i gefnogi'r safiad a fabwysiadir, mynychu gwrandawiadau a fforymau agored ac ateb cwestiynau a ofynnir gan yr Archwilydd.

2.7 Bydd yr Archwiliad yn agor yn dilyn Cyfarfod Rhagarweiniol wedi ei drefnu a'i gynnal gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Gwahoddwyd pob parti â diddordeb i'r cyfarfod hwn. Cynhelir y Cyfarfod Rhagarweiniol ar 12 Medi 2013, ac yn y cyfarfod hwnnw bydd yr Archwilydd yn esbonio'r broses archwilio ac yn trafod amserlen yr archwiliad. Mae'r Archwilydd wedi dweud y bydd angen i'r Adroddiad Effaith Lleol (LIR), y Datganiad Tir Cyffredin (SOCG) a'r sylwadau ysgrifenedig gael eu cyflwyno erbyn 17 Hydref 2013. Mae'r Archwilydd hefyd wedi darparu Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion, sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 i'r Adroddiad hwn.

## 3. ADRODDIAD EFFAITH LLEOL (LIR)

3.1 Dadansoddiad beirniadol yw'r LIR o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais. Mae'n nodi'r effaith/effeithiau lleol y gallai'r datblygiad ei gael /eu cael ar yr ardal ac ar y bobl sy'n byw ger ac o gwmpas y fferm wynt arfaethedig. Rhaid i'r Archwilydd a'r Gweinidog maes o law roi ystyriaeth i LIR y Cyngor wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Mae'r LIR ar wahân i unrhyw sylwadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu gwneud ar ragoriaethau'r cais.

3.2 O ystyried graddfa a natur draws-ffiniol y datblygiad arfaethedig, mae'r Cynghorau wedi bod yn gweithio ar y cyd, a'r bwriad yw paratoi Adroddiad Effaith Lleol ar y cyd. Mae Swyddogion o Gynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi adolygu'r cais er mwyn asesu a yw'r effeithiau'n gadarnhaol, niwtral neu negyddol.

3.3 Wrth baratoi'r LIR, ymgynghorwyd â Swyddogion yn y ddau Gyngor a gydag ymgynghorwyr allanol. Edrychwyd ar y materion canlynol:

- Effaith Weledol ac ar y Dirwedd.
- Sŵn.
- Ecoleg ac Adareg.
- Mynediad, Traffig, Cludiant a Pheirianneg gysylltiedig.
- Hydroleg a Daeareg.
- Economaidd-Gymdeithasol (yn cynnwys Twristiaeth)
- Mynediad i'r Cyhoedd a Hamdden.

3.4 Ar sail yr ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hyd yma, mae'n glir yr ystyrir bod yr <u>egwyddor</u> o ddatblygu fferm wynt fawr o fewn Ardal Chwilio Strategol yn unol â'r Polisi Ynni Cenedlaethol, polisi Llywodraeth Cymru a pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

3.5 Fodd bynnag, mae pryderon wedi eu lleisio gan ymgyngoreion ynglŷn â'r effeithiau negyddol sylweddol posibl ar yr ardal a'r trigolion sy'n byw o gwmpas Coedwig Clocaenog. Ystyrir bod y rhain yn effeithiau negyddol penodol o safbwynt:-
a) Effaith weledol y 32 o dyrbinau mawr o'r maint arfaethedig (145m) a 'u heffaith ar y dirwedd.
b) Effaith sŵn cronnus ac effaith amwynderau preswyl y trigolion.
c) Effaith debygol datblygu Cyflenwadau Dŵr Preifat.

3.6 Fe fydd effeithiau eraill, nad ydynt o bosibl mor sylweddol, y gellir rhoi sylw iddynt trwy fesurau lliniaru, neu os oes angen, trwy wella mesurau lliniaru.

3.7 Fel y nodwyd, nod y LIP yw rhestru unrhyw effaith/effeithiau y mae'r Cyngor yn ystyried y dylai'r Arolygiaeth Gynllunio fod yn ymwybodol ohonynt, ond <u>nid</u> asesu rhagoriaethau'r cais, na phwyso a mesur y cynnig. Mae'r LIP ar wahân i unrhyw sylwadau y mae'r Cyngor yn dymuno eu gwneud ynglŷn â rhagoriaethau'r cais, ac mae gan y Cyngor gyfle i gyflwyno'r sylwadau hynny ar wahân wrth wneud sylwadau ysgrifenedig ar y cais. Rhoddir sylw i sylwadau ysgrifenedig yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

3.8 Mae'r Archwilydd wedi nodi y bydd angen i LIP y Cyngor gael ei gyflwyno erbyn 17 Hydref 2013. O ystyried maint y gwaith dan sylw, ni ddisgwylir y bydd y LIP wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod ym mis Medi. Fodd bynnag, bydd drafft o'r LIP ar gael er gwybodaeth i Aelodau cyn y Pwyllgor. Disgwylir i'r gwaith o baratoi'r LIP barhau nes iddo gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y dyddiad cau, sef 17 Hydref. Felly mae'r swyddogion yn gofyn i Aelodau ddirprwyo awdurdod i gwblhau'r LIR, a chyflwyno'r LIR i'r Arolygiaeth Gynllunio.

## 4. DATGANIAD TIR CYFFREDIN (SOCG)

4.1 Bydd y Datganiad Tir Cyffredin (SOCG) yn galluogi i'r Archwilydd weld beth y mae'r ymgeisydd a'r partïon eraill (yn cynnwys y Cynghorau Lleol) yn cytuno arno ac yn anghytuno arno. Bwriad hwn yw helpu i benderfynu beth yw'r prif feysydd pryder y bydd angen craffu mwyaf arnynt fel rhan o'r broses archwilio. Yr amserlen dros dro i'r ymgeisydd gwblhau a chyflwyno'r SOCG i'r Archwilydd yw 17 Hydref 2013.

4.2 Mae swyddogion mewn trafodaethau gyda'r ymgeisydd, ond ni ddisgwylir y bydd y fersiwn drafft o'r SOCG wedi ei gwblhau erbyn y dyddiad y bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod ym mis Medi. Fodd bynnag rhagwelir y bydd gwybodaeth bellach am rai o'r materion yn cael eu hadrodd yn yr Atodiad a fydd yn cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

4.3 Disgwylir i'r gwaith o baratoi'r SOCG barhau nes y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn y dyddiad cau, sef 17 Hydref. Felly mae swyddogion yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ddirprwyo awdurdod i gwblhau'r SOCG gyda'r cais, ac i'r SOCG gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio.

## 5. ASESU'R GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU (DCO)

5.1 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno fersiwn drafft o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel rhan o'r cais. Ar ôl yr Archwiliad, bydd y DCO naill ai'n cael ei dderbyn neu ei wrthod gan y Gweinidog Ynni a Newid Hinsawdd.

5.2 Pwrpas y Gorchymyn yw rhoi 'caniatâd datblygu' ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu trydan ynni gwynt sy'n cynnwys prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol fel y diffinnir yn Adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2008. Yn gryno mae hyn yn cynnwys:

- Hyd at 32 o dyrbinau gwynt;
- Cyfres o geblau cyfathrebu trydanol ac electronig wedi eu claddu o dan y ddaear sy'n cysylltu â'r tyrbinau gwynt;
- Cyfres o draciau newydd, traciau presennol a fydd yn cael eu gwella a'u lledu a ffyrdd cyhoeddus a fydd yn cael eu lledu;
- Lledu ffordd gyhoeddus heb ei henwi i ddarparu mynediad ar gyfer adeiladu, cynnal ac argyfwng;
- Is-orsaf drydan ar y safle yn cynnwys adeilad rheoli;
- Dau fast meteorolegol;
- Dau safle adeiladu sifil dros dro;
- Pedwar pwll benthyg ar gyfer tynnu cerrig; a
- Safle trydan dros dro.

5.3 Bydd y Gorchymyn hefyd yn caniatáu pryniant gorfodol o'r tir sydd ei angen i adeiladu a gweithredu'r fferm wynt.

5.4 Disgwylir i'r Cyngor gynnig sylwadau ar y Gorchymyn drafft ac awgrymu newidiadau os oes angen. Paratowyd y Gorchymyn drafft ar sail debyg i'r un a gyflwynwyd ar gyfer y datblygiad fferm wynt y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer yn ddiweddar yng Nghoedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin.

5.5 Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn cynnwys "gofynion" sy'n cyfateb i Amodau ar ganiatâd cynllunio. Waeth beth yw ei farn am y prif faterion, mae disgwyl i'r Cyngor, ar sail ddiragfarn, gyfrannu at fframio'r "gofynion" os bydd y DCO yn cael ei roi. Ystyrir bod y "gofynion" drafft yn y Gorchymyn a gyflwynwyd yn sylfaenol gadarn. Fodd bynnag, mae swyddogion yn ystyried bod rhai "gofynion" yn rhy gyfarwyddol a bod angen iddynt fod yn fwy hyblyg. Wrth gyflwyno sylwadau ar y DCO drafft, bydd Swyddogion yn gofyn am fân newidiadau er mwyn cynnwys yr hyblygrwydd hwnnw i ganiatáu mân newidiadau i'r manylion a gymeradwywyd o fewn termau'r "gofyniad".

5.6 Mae'r amserlen Archwilio dros dro yn dangos y bydd y Gwrandawiad Penodol o'r Mater Cyntaf ar y DCO yn cael ei gynnal ar 29 Hydref 2013. Bydd angen i'r newidiadau arfaethedig cychwynnol i'r DCO drafft gael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn 14 Hydref 2013. Cynhelir Gwrandawiad Penodol o'r Ail Fater ar y DCO yn Ionawr 2014, gyda sylwadau terfynol ar y DCO drafft yn Chwefror 2014. Felly mae Swyddogion yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ddirprwyo awdurdod er mwyn cyflwyno sylwadau ar y DCO drafft a chyflwyno'r sylwadau hynny i'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn amserlen yr Archwiliad.

## 6. SEFYLLFA'R CYNGOR O SAFBWYNT Y BROSES ARCHWILIO

6.1 Os yw'r Cyngor yn dymuno gwneud cyfraniad gweithgar at y broses Archwilio, mae Swyddogion yn ystyried y dylai'r Cyngor wneud penderfyniad cynnar ynghylch a ddylid cefnogi neu wrthwynebu'r cais datblygu.

6.2 O safbwynt egwyddor y datblygiad fferm wynt, mae Polisi Ynni Cenedlaethol, polisi Llywodraeth Cymru a pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi'r datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr yn yr Ardal Chwilio Strategol yng Nghoedwig Clocaenog:

- i) Polisi cenedlaethol ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ENE1 ac ENE3.
- ii) Polisi Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru (5$^{ed}$ Rhifyn) a Nodyn Cyngor Technegol 8
- iii) Polisi VOE 9 a VOE 10 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a fabwysiadwyd yn ddiweddar
- iv) Polisi NTE 7 a NTE 8 o Gynllun Datblygu Lleol Conwy fydd yn cael ei Fabwysiadu'n fuan.

Felly mae Swyddogion yn ystyried y byddai'n anodd iawn cynnal gwrthwynebiad i <u>egwyddor</u> y datblygiad fferm wynt hwn.

6.4 Fodd bynnag, mae pryderon penodol ynglŷn ag effeithiau negyddol sylweddol posibl datblygu 32 o dyrbinau gwynt 145 metr a gwaith cysylltiedig yn cynnwys:-

i) Ymgynghorydd Tirwedd y Cyngor a'r Uwch Ymgynghorydd Tirwedd, sy'n ystyried y bydd cynllun o'r maint a'r raddfa hon yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr ardal, yn nhermau ystyriaethau gweledol ac ar y dirwedd.

ii) Ymgynghorydd Sŵn y Cyngor, sy'n ystyried y bydd lefelau cronnus annerbyniol, sydd lawer iawn yn uwch na'r hyn y gellid disgwyl i'r trigolion sy'n byw yn yr ardal ei ddioddef.

6.5 Disgwylir am ymateb gan ymgyngoreion ar Gyflenwadau Dŵr Preifat, materion economaidd-gymdeithasol (yn cynnwys twristiaeth) ac ecoleg. Mae'n bosibl y bydd meysydd pryder sylweddol yn deillio o'r ymatebion hyn ac y bydd angen eu cyflwyno i'r Archwilydd.

6.6 Felly mae Swyddogion yn argymell y dylai'r Cyngor wrthwynebu'r cais ar sail y pryderon penodol a amlinellir uchod. Adroddir ynghylch gwybodaeth bellach ar ymatebion i'r ymgynghoriad sydd heb eu derbyn eto yn yr Atodiad a fydd yn cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

## 7. CRYNODEB A CHASGLIAD

7.1 Mae Swyddogion yn ystyried y dylai'r Cyngor barhau i chwarae rôl weithgar a chyfrannu'n llawn at Archwilio'r cais hwn. Mae'r Archwilydd wedi cyhoeddi amserlen ddrafft yr Archwiliad ac wedi galw Cyfarfod Rhagarweiniol ar 12 Medi 2013. Disgwylir i'r cyfnod Archwilio barhau tan fis Mawrth 2014.

7.2 Yn ystod cyfnod yr Archwiliad, bydd angen i'r Cyngor ymateb yn gyflym ar wahanol faterion ac o fewn dyddiadau cau penodedig tynn. Felly mae Swyddogion yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ddirprwyo awdurdod er mwyn ymateb i'r materion a godir yn ystod y broses Archwilio. Mae Swyddogion hefyd yn gofyn i Aelodau ddirprwyo awdurdod i gwblhau'r Adroddiad Effaith Lleol (LIP) a'r Datganiad Tir Cyffredin (SOCG), a chyflwyno sylwadau ar y cais datblygu a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), drafft o fewn amserlen yr Archwiliad.

## 8. ARGYMHELLIAD

A) Nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddatblygu Fferm Wynt ar raddfa fawr yn yr Ardal Chwilio Strategol yng Nghoedwig Clocaenog

B) Bod y Cyngor yn gwrthwynebu effeithiau negyddol sylweddol posibl y datblygiad o safbwynt yr effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd, effaith sŵn ac unrhyw effeithiau negyddol eraill y mae'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a / neu Reolwr Rheoli Datblygu'n ystyried yn arwyddocaol ar ôl derbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

C) Bod y Pwyllgor yn awdurdodi Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a / neu Reolwr Rheoli Datblygu i gwblhau'r Adroddiad Effaith Lleol (LIP) a'r Datganiad Tir Cyffredin (SOCG), a chyflwyno sylwadau ar y cais datblygu a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft, ac ymateb i faterion eraill a godir yn ystod y broses Archwilio.

**GRAHAM H. BOASE**

**PENNAETH CYNLLUNIO A DIOGELU'R CYHOEDD**